Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Adfer Coetir (WRS) 2025/26

## Datganiad o Ddiddordeb (DoD)

## Canllaw Sut i Lenwi

©Hawlfraint y Goron 2024

ISBN **978-1-83625-851-3**

# Ffurflen Datgan Diddordeb
# Cynllun Adfer Coetir

# Canllaw Sut i Lenwi

**Pwysig:**

Mae'r canllaw hwn yn rhoi cyfarwyddiadau manwl, cam wrth gam ynghylch sut i lenwi eich Ffurflen Datgan Diddordeb yn y Cynllun Adfer Coetir.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu'r Canllaw yn Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg, yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru. Os hoffech gopi o'r canllaw hwn yn yr iaith arall, gallwch fynd ati o llyw.cymru/grantiau-a-thaliadau-gwledig trwy glicio ar y dewisydd iaith ar dop y dudalen ac ailagor y ddogfen.

Os ydych yn cael trafferthion neu os nad ydych yn gallu cysylltu â'n gwefan, ffoniwch Desg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.


**Tudalen Cynnwys**


| **Cynnwys:** | **Tudalen:** |
|---|---|
| **ADRAN 1 - Dechrau arni** | **5** |
| • Hafan RPW Ar-lein | 5 |
| • Datganiad o Ddiddordeb yn y Cynllun Adfer Coetir | 6 |
| **ADRAN 2 – Pa sgriniau fydd yn ymddangos a beth yw eu pwrpas?** | **7** |
| • Golwg gyffredinol ar y botymau rheoli | 7 |
| • Dechrau ar y Cais | 8 |
| • Cyflwyniad i'r Datganiad o Ddiddordeb yn y Cynllun Adfer Coetir | 9 |
| • Hysbysiad Preifatrwydd: Grantiau Llywodraeth Cymru | 10 |
| • Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol a Thrwydded Cwympo Coed | 11 |
| • Rhestr Caeau | 12 |
| • Chwilio am Gaeau | 13 |
| • Gweld Mapiau | 14 |
| **ADRAN 3 – Dewis Caeau ar gyfer fy Natganiad o Ddiddordeb** | **15** |
| • Cyfeirnod y Ddalen | 15 |
| • Rhif y Cae | 15 |
| • Maint y Cae | 15 |
| • Arwynebedd Coetir yr NFI (Ha) | 15 |
| • Dewis ar gyfer Adfer | 15 |
| • Deiliadaeth | 15 |
| • Dyddiad dechrau'r denantiaeth | 15 |
| • Dyddiad ola'r denantiaeth | 15 |
| • Gwneud cais am y Cynllun Adfer Coetir | 16 |
| • Sut mae ychwanegu rhagor o gaeau at fy Natganiad o Ddiddordeb? | 17 |
| • Sut mae dileu caeau sydd wedi'u hychwanegu at fy Natganiad o Ddiddordeb? | 18 |
| **ADRAN 4 - Cyflwyno eich Datganiad o Ddiddordeb yn y Cynllun Adfer Coetir** | **19** |
| • Datganiad ac Ymrwymiad | 20 |
| • Tudalen Gyflwyno | 21 |
| **ADRAN 5 - Beth i'w wneud ar ôl cyflwyno'r ffurflen yn llwyddiannus** | 22 |
| • Tystiolaeth Ddogfennol | 22 |
| • Tynnu'ch Datganiad o Ddiddordeb yn ôl | 22 |
| • Newidiadau ac Ychwanegiadau | 23 |

## ADRAN 1 - DECHRAU ARNI

### Hafan RPW Ar-lein

Mewngofnodwch i'ch Cyfrif RPW Ar-lein - nodwch eich Enw Defnyddiwr a'ch Cyfrinair yn y blychau a chliciwch ar y botwm **Mewngofnodi**.





Os ydych yn cael trafferthion neu os nad ydych yn gallu defnyddio'ch cyfrif ar-lein, ffoniwch Desg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

Ar ôl i chi fewngofnodi i'ch cyfrif ar-lein fe welwch dudalen ‘Hafan’ RPW Ar-lein. Bydd y dudalen hon yn dangos gwybodaeth a negeseuon yr ydych wedi'u derbyn neu eu hanfon, a bydd modd i chi ddechrau llenwi a chyflwyno unrhyw geisiadau sydd ar gael.

## Datganiad o Diddordeb yn y Cynllun Adfer Coetir



I ddechrau ar eich Datganiad o Ddiddordeb yn y Cynllun Adfer Coetir, cliciwch ar y ddolen berthnasol dan ‘Dechrau Ceisiadau a Hawliadau’ fel y gwelir isod (efallai y bydd angen sgrolio i waelod y dudalen):



## <u>ADRAN 2 – PA SGRINIAU FYDD YN YMDDANGOS A BETH YW EU PWRPAS?</u>


### Golwg gyffredinol ar y botymau rheoli

Dyma olwg gyffredinol ar y botymau rheoli sy'n ymddangos ar bob tudalen. Bydd angen i chi eu defnyddio er mwyn llenwi'r Datganiad o Ddiddordeb yn y Cynllun Adfer Coetir:

| | |
|---|---|
| Cymraeg English | Ar ochr chwith y dudalen lle bo'n berthnasol. Bydd y botwm hwn yn caniatáu i chi newid iaith eich Datganiad o Ddiddordeb yn y Cynllun Adfer Coetir. |
| Helpu | Ar frig y dudalen ar yr ochr chwith lle bo'n berthnasol. Bydd y botwm hwn yn dangos/cuddio awgrymiadau ar y sgrin i'ch helpu i lenwi'ch Datganiad o Ddiddordeb yn y Cynllun Adfer Coetir. |
| Yn ôl Nesaf | Ar frig a gwaelod bob tudalen lle bo'n berthnasol. Bydd y botymau hyn yn caniatáu i chi symud ymlaen ac yn ôl rhwng tudalennau'ch Datganiad o Ddiddordeb yn y Cynllun Adfer Coetir. |
| Printio | Ar waelod bob tudalen lle bo'n berthnasol. Bydd y botwm hwn yn caniatáu i chi Argraffu ciplun o'ch Ffurflen fel y mae. **Pwysig**: Ni fyddwn yn derbyn copïau wedi'u hargraffu o'ch Datganiad o Ddiddordeb yn y Cynllun Adfer Coetir. |
| Gweld Map | Ar waelod bob tudalen lle bo'n berthnasol. Cliciwch y botwm hwn i agor map rhyngweithiol o'r caeau rydych wedi'u cofrestru ar hyn o bryd. |
| Safio | Ar waelod bob tudalen lle bo'n berthnasol. Cliciwch ar y botwm hwn i arbed unrhyw newidiadau. Gallwch hefyd glicio'r botwm hwn i gadarnhau bod y newidiadau a wnaed yn dderbyniol. |
| Gadael | Ar waelod bob tudalen lle bo'n berthnasol. Cliciwch i adael eich Datganiad o Ddiddordeb yn y Cynllun Adfer Coetir. Mae'r newidiadau yn cael eu harbed yn awtomatig. |
| <br><br><br> | Mae'r arwyddion hyn yn ymddangos wrth ochr bob adran o'ch Datganiad o Ddiddordeb yn y Cynllun Adfer Coetir, ar ochr chwith y dudalen.<br><br>Mae'r tic gwyrdd yn ymddangos pan fo'r wybodaeth a gyflwynwyd mewn adran yn dderbyniol.<br><br>Mae'r groes goch yn ymddangos pan fo adran/tudalen ofynnol ar ôl heb ei gweld eto, neu os oes angen cywiro unrhyw gamgymeriadau.<br><br>Mae'r eicon Gwybodaeth glas yn ymddangos pan fo neges wedi'i sbarduno gan newid a wnaed i'r ffurflen. |

## Dechrau ar y Cais

Ar ôl dewis dolen 'Datganiad o Ddiddordeb (DoD) Cynllun Adfer Coetir' byddwch yn gweld y dudalen ganlynol.


Taliadau Gwledig Cymru
RPW Ar-Lein Online
Rural Payments Wales

English | Allgofnodi

Hafan | Manylion y CRN | Tir | Gohebiaeth | Ffurflenni | Contractau a Grantiau Bach | Cynlluniau Coetir

**Parhau â Chais** parhau â chais neu hawliad

Rydych wedi gofyn am gael llenwi'r cais canlynol ar-lein: **DOD Cynllun Adfer Coetir.** Rydych wrthi'n gweithio ar eich ffurflen. Cliciwch ar 'Parhau' i symud ymlaen â **DOD Cynllun Adfer Coetir.**

Cewch ddewis dileu'ch **DOD Cynllun Adfer Coetir** presennol a dechrau eto. Trwy wneud, byddwch yn dadwneud y newidiadau sydd wedi'u gwneud ers ichi ddechrau'ch **DOD Cynllun Adfer Coetir** a llenwir y **DOD Cynllun Adfer Coetir** newydd â'r data diweddaraf. Os ydych am wneud, cliciwch 'Dechrau Eto'.

Bydd RPW Ar-lein yn gofyn i chi am yr wybodaeth sydd ei hangen ar y ffurflen. Drwy ddechrau llenwi'r ffurflen ar-lein, nid ydych yn ymrwymo i'w chyflwyno ar-lein; gallwch adael y broses ar unrhyw adeg. Os ydych chi'n gadael y ffurflen, gallwch ddychwelyd yn ôl ati rywbryd arall i'w chwblhau. Bydd RPW Ar-lein wedi arbed yr wybodaeth y byddwch wedi'i nodi yn eich sesiwn flaenorol.

Ni fydd y ffurflen yn cael ei hanfon i Lywodraeth Cymru nes eich bod yn clicio ar 'Anfon' ar ddiwedd y broses. Unwaith eich bod wedi'i chyflwyno, ni fyddwch yn gallu gwneud newidiadau iddi gyda RPW Ar-lein.

Mae'n rhaid i chi anfon y ffurflen i Lywodraeth Cymru erbyn Ni fyddwch yn gallu anfon eich ffurflen ar ôl y dyddiad hwn hyd yn oed os ydych chi wedi dechrau ei llenwi'r ffurflen cyn

Os oes gennych chi broblemau yn llenwi **DOD Cynllun Adfer Coetir** yna gallwch chi gysylltu â'r 'Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid' am ragor o gymorth.

Cofiwch wneud yn siŵr bod Manylion y Cwsmer a'r Dewisiadau Ar-lein a nodir isod yn gywir cyn anfon y ffurflen. Os ydyn nhw'n anghywir, gallwch eu newid nawr drwy glicio ar y dolenni Manylion y Cwsmer neu Dewisiadau Ar-lein isod.

Manylion y Cwsmer
Enw Masnachu
Cyfeiriad
Côd Post
Rhif Ffôn
Cyfeiriad e-bost
Nifer y Partneriaid

Dewisiadau Ar-lein
E-bost ynte neges destun (SMS)
Cyfeiriad e-bost
Rhif ffôn symudol

Parhau i weithio ar **DOD Cynllun Adfer Coetir** a gafodd ei ddiweddaru ar 29/10/2024 am 10:25 gan Charlies Estate Agent

Parhau | Yn ôl


Cyn cychwyn, cadarnhewch fod y manylion sy'n ymddangos yn gywir. Os oes angen, gallwch wneud newidiadau drwy glicio ar y ddolen 'Manylion y Cwsmer' neu 'Dewisiadau Ar-lein'.

Os yw'r manylion sy'n cael eu dangos yn gywir, dewiswch y botwm 'Dechrau'. Bydd hyn yn eich arwain at y sgrin Cyflwyniad i'r Datganiad o Ddiddordeb yn y Cynllun Adfer Coetir.

## Cyflwyniad i'r Datganiad o Ddiddordeb (DoD) Cynllun Adfer Coetir

Mae'r dudalen hon yn rhoi negeseuon pwysig am y Datganiad o Ddiddordeb yn y Cynllun Adfer Coetir. Gwnewch yn siŵr eich bod yn eu darllen yn drylwyr cyn i chi ddechrau.


Mae hefyd yn rhoi dolen Rhyngrwyd sy'n arwain at Lyfryn Rheolau Cynllun Adfer Coetir ar wefan Llywodraeth Cymru.




Ar ôl i chi ddarllen a deall y Llyfryn Rheolau Cynllun Adfer Coetir a'r Prif Negeseuon cliciwch ar 'Nesaf' i symud ymlaen at sgrin nesaf y Datganiad o Ddiddordeb yn y Cynllun Adfer Coetir.

## Hysbysiad Preifatrwydd: Grantiau Llywodraeth Cymru

Mae’r dudalen hon yn esbonio sut mae Llywodraeth Cymru’n delio â’r data personol y byddwch yn ei roi i ni wrth ymgeisio am grant neu wrth ofyn am arian grant. Gofalwch eich bod yn darllen yr wybodaeth yn fanwl.



Cynllun Adfer Coetir

Helpu

Cyflwyniad

Hysbysiad preifatrwydd

Manylion Hysybsiad Iechyd Planhigion Statudol a Thrwydded Torri Coed

Rhestr Caeau

Cyflwyno

**Hysbysiad preifatrwydd: grantiau Llywodraeth Cymru**

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn dweud wrthych sut y byddwn yn ymdrin ag unrhyw ddata personol a ddarperir gennych mewn perthynas â'ch cais am grant neu gyllid.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu amrywiol gynlluniau grant er mwyn helpu i gyflawni ein polisïau a chreu Cymru decach, fwy ffyniannus.

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych mewn perthynas â'ch cais am grant neu gyllid. Bydd yr wybodaeth yn cael ei phrosesu fel rhan o'n gorchwyl cyhoeddus (h.y. arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru) ac yn ein helpu i asesu a ydych yn gymwys i gael cyllid.

Cyn rhoi grant i chi, rydym yn cynnal gwiriadau er mwyn atal twyll ac achosion o wyngalchu arian, ac i wirio pwy ydych chi. Fel rhan o'r gwiriadau hyn, mae'n ofynnol i ni brosesu data personol amdanoch chi gydag asiantaethau atal twyll trydydd parti.

Os byddwn ni, neu asiantaethau atal twyll, yn penderfynu eich bod yn peri risg o ran twyll neu wyngalchu arian, efallai y byddwn yn gwrthod â darparu'r cyllid grant rydych wedi gwneud cais amdano, neu'n rhoi'r gorau i ddarparu'r cyllid grant presennol i chi.

Bydd yr asiantaethau atal twyll yn cadw cofnod o unrhyw risg o dwyll neu wyngalchu arian, a gallai hyn arwain at bobl eraill yn gwrthod â darparu gwasanaethau, cyllid neu gyflogaeth i chi.

Er mwyn asesu a ydych yn gymwys efallai y bydd angen i ni hefyd rannu gwybodaeth bersonol sy'n ymwneud â'ch cais gydag awdurdodau Rheoleiddio, megis Cyllid a Thollau EM, Awdurdodau Lleol, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Heddlu.

Gall eich gwybodaeth, gan gynnwys eich gwybodaeth bersonol, fod yn destun cais gan aelod arall o'r cyhoedd. Wrth ymateb i geisiadau o'r fath efallai y bydd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ryddhau gwybodaeth, gan gynnwys eich gwybodaeth bersonol, i gyflawni ei rhwymedigaethau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, Ddeddf Diogelu Data 2018 neu Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi manylion y symiau a dalwyd i fuddiolwyr Cymorth Gwledig. Cyhoeddir data ar gyfer pob buddiolwr, a bydd yn cynnwys enw a lleoliad y ffermwr/rheolwr tir a manylion y symiau ac enw'r cynllun. Ond, ni ddatgelir enwau'r rheini sy'n cael llai na'r hyn sy'n gyfwerth â £1,250 mewn cymorthdaliadau. Cyhoeddir y data bob blwyddyn ar 31 Mai a bydd y data ar gael am ddwy flynedd o'r dyddiad y cawsant eu cyhoeddi.

Byddwn yn cadw gwybodaeth bersonol mewn ffeiliau yn unol â'n polisi cadw gwybodaeth. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn cadw eich data personol am 7 mlynedd ar ôl y dyddiad pan fyddwch chi, fel derbynnydd y grant, yn rhydd rhag holl amodau'r grant, a phob taliad wedi'i wneud. Fodd bynnag, os yw'r cyllid yn cael ei ddyfarnu dan yr Esemptiad Bloc Cyffredinol neu De Minimis, bydd eich data personol yn cael eu cadw am 10 mlynedd ar ôl i unrhyw ddyfarniad o gymorth ddod i ben. Os bydd eich cais yn aflwyddiannus, byddwn yn cadw eich manylion am flwyddyn ar ôl y dyddiad y gwnaethoch eu darparu.

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl wneud y canlynol:

- gweld y data personol sydd gan Lywodraeth Cymru amdanoch;
- gofyn inni gywiro unrhyw ddata anghywir;
- gwrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data (dan rai amgylchiadau);
- gofyn i'ch data gael eu dileu (dan rai amgylchiadau);
- cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth sydd gan Lywodraeth Cymru a sut mae'n cael ei defnyddio, neu os ydych am ymarfer eich hawliau o dan GDPR, mae'r manylion cyswllt isod:
Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
Cyfeiriad e-bost: dataprotectionofficer@llyw.cymru

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd gwybodaeth yw:
Yr Ail Lawr, Tŷ Churchill
Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2HH
Ffôn: 0330 414 6421
Wefan: https://cy.ico.org.uk/

Os oes gennych gwestiynau am y datganiad preifatrwydd hwn, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW.
https://llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-grantiau-llywodraeth-cymru

Ar ôl darllen a deall yr Hysbysiad Preifatrwydd: Grantiau Llywodraeth Cymru, cliciwch ar ‘Nesaf’ i fynd i sgrin nesaf y Datganiad o Ddiddordeb yn y Cynllun Adfer Coetir.

## Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol a Thrwydded Cwympo Coed


Ar y dudalen hon rhaid i chi nodi manylion eich Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol a/neu Drwydded Cwympo Coed.

- Os mai 'Oes' yw eich ateb i'r cwestiwn 'A oes gennych Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol?', bydd blwch yn ymddangos i chi roi eich rhif.

- Os mai 'Oes' yw eich ateb i'r cwestiwn 'A oes gennych drwydded cwympo sy'n cynnwys coed llawrydd?', bydd blwch yn ymddangos i chi roi rhif eich trwydded cwympo coed.

Mae cwestiwn wedi'i ychwanegu at y Datganiad o Ddiddordeb Cynllun Adfer Coetir 'A oes angen cymorth ariannol arnoch i gwympo coed llarwydd hyd at 25 oed?'

Rhaid i chi lenwi'r holl feysydd sydd wedi'u nodi â seren goch *




Mae'n rhaid i chi gyflwyno eich Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol ac /neu Drwydded Cwympo Coed i gefnogi'ch Datganiad o Ddiddordeb.


Ni fyddwn yn ystyried dewis Datganiad o Ddiddordeb tan y bydd yr holl ddogfennau ategol wedi dod i law.

Os ydych yn dymuno llenwi un Datganiad o Ddiddordeb i ymdrin â mwy nag un Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol ac /neu Drwydded Cwympo Coed bydd rhaid i chi hefyd gyflwyno'r holl Hysbysiadau Iechyd Planhigion Statudol ac /neu Drwyddedau Cwympo Coed i gefnogi eich Datganiad o Ddiddordeb.

## Rhestr Caeau


Y sgrin hon fydd sylfaen eich Datganiad o Ddiddordeb yn y Cynllun Adfer Coetir. Bydd yr holl fanylion caeau sydd gan Lywodraeth Cymru ar eich cyfer ar adeg llenwi'r Datganiad o Ddiddordeb i'w gweld ar gyfer eich rhif cyfeirnod y cwsmer.

Mae golwg gyffredinol o'r opsiynau sydd ar gael ar dudalen Rhestr Caeau i'w gweld isod:




## Chwilio am Gaeau

Mae'r cyfleuster hwn yn eich galluogi i chwilio am gaeau unigol sy'n rhan o'ch Datganiad o Ddiddordeb. Gallwch chwilio yn ôl rhif y cae neu enw'r cae (gan dybio bod hyn wedi'i osod yn flaenorol).




Os oes cofnod yn cyfateb i'r manylion a nodwyd, mae'r cae yn cael ei uwcholeuo fel y gwelir isod, neu gallwch barhau i chwilio drwy glicio ar y botwm 'Canfod y Nesaf':



## Cyfleuster Gweld Map

Ar waelod pob tudalen mae botwm sydd yn eich galluogi i weld map rhyngweithiol o eich daliad. Mae'r map yma yn amlygu'r holl gaeau sydd wedi eu cofrestru i chi ar ein systemau ac fe fydd yn eich galluogi i wirio'r caeau, nodweddion parhaol a mesur arwynebedd.

Cliciwch [Gweld Map] i agor





Yn yr ardal ochr dde uchaf o eich sgrin mae'r **Gweld Opsiynau** - fedrwch ddefnyddio'r opsiynau yma er mwyn toglo rhwng awyrlun, nodweddion parhaol a labeli caeau.

Mi gewch chwyddo i mewn ac allan o'r map drwy ddefnyddio olwyn sgrôl eich llygoden, neu drwy ddefnyddio'r botymau **+** a **-** sydd wedi ei lleoli o dan y blwch Gweld Opsiynau.

Er mwyn mesur arwynebedd, cliciwch ar declyn. 

Gyda phob clic chwith o eich llygoden fe wnewch ollwng 'nod'. Fe fydd y mesuriad rhwng nodau wedi ei gollwn yn cael eu dangos mewn medrau, hyd nes y byddwch yn cysylltu'r nod olaf gyda'r un cyntaf, ble fydd yr arwynebedd mewn Hectarau yn cael ei ddangos gyda mesuriad hyd y terfynau mewn medrau:



## ADRAN 3 – DEWIS CAEAU AR GYFER FY NATGANIAD O DDIDDORDEB

Cyfeirnod y Ddalen
Dyma Gyfeirnod y Ddalen ar Fap Arolwg Ordnans.

Rhif y Cae
Dyma'r Cyfeirnod Grid Cenedlaethol

Maint y Cae (Ha)
Dyma arwynebedd daearyddol y cae ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru. Bydd maint y cae'r un fath â'r hyn a gyflwynwyd ar eich SAF blynyddol.

Arwynebedd Coetir yr NFI (Ha)
Dyma arwynebedd y coetir a gofnodwyd ar gyfer y cae gan y Comisiwn Coedwigaeth, dan y Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol.

Dewis ar gyfer Adfer
Mae'n rhaid rhoi tic yn y blwch hwn ar bob cae yr ydych am ei gynnwys ar eich Datganiad o Ddiddordeb yn y Cynllun Adfer Coetir.


Deiliadaeth
Mae'r blwch hwn yn dangos pa fath o ddeiliadaeth sydd gennych ar y cae, er enghraifft ai chi yw perchennog y cae, ai chi yw'r tenant, neu ydych chi wedi gosod y cae allan ar rent? Ceir rhestr lawn o godau Deiliadaeth ar y dudalen nesaf.

Dyddiad dechrau'r denantiaeth
Os yw'r cae yn destun cytundeb tenantiaeth, dyma ddyddiad dechrau'r denantiaeth sydd gan Lywodraeth Cymru.

Dyddiad ola'r denantiaeth
Os yw'r cae yn destun cytundeb tenantiaeth, dyma ddyddiad ola'r denantiaeth sydd gan Lywodraeth Cymru.

## Gwneud cais am Cynllun Adfer Coetir


Bydd yn rhaid i chi ddangos pob cae sydd i'w gynnwys yn eich Datganiad o Ddiddordeb drwy roi tic yn y blwch 'Dewis ar gyfer Adfer'.




Ar ôl dewis cae, bydd blwch ticio yn ymddangos a fydd yn eich galluogi chi i nodi yr arwynebedd sydd i'w gael ei ailstocio. Cliciwch Iawn pan mae hyn wedi ei gwblhau.





Os byddwch am Olygu unrhyw dir rydych wedi nodi'ch bod am ei ailstocio, cliciwch ar y botwm 'Golygu' fel a ddangosir isod.




## Sut mae ychwanegu rhagor o gaeau at fy Natganiad o Ddiddordeb?

Os hoffech ychwanegu rhagor o gaeau, dewiswch **+ Ychwanegu Cae**

Ar ôl clicio ar y botwm hwn, bydd cofnod gwag yn ymddangos ar ddiwedd y Rhestr Caeau.




Rhaid i chi nodi Cyfeirnod y Ddalen, Rhif y Cae, Maint y Cae (Ha), Arwynebedd Coetir yr NFI a gwybodaeth ynghylch Deiliadaeth ar gyfer pob cae sy'n cael ei ychwanegu. Bydd hefyd angen i chi nodi yr Arwynebedd o Ail-stocio drwy clicio ar y botwm 'Golygu'.





Mae'r Codau Deiliadaeth fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **A** | Tenantiaeth Amaethyddol Lawn |
| **B** | Tenantiaeth Busnes Fferm |
| **C** | Tenantiaeth Lafar |
| **D** | Trwydded Bori |
| **O** | Yn eiddo i chi |


Dylid nodi bod rhaid llenwi blychau Dyddiad Dechrau'r Denantiaeth a Dyddiad Ola'r Denantiaeth pan fyddwch yn nodi cod Deiliadaeth A, B, C neu D yn y blwch Deiliadaeth.

**Sut mae dileu caeau sydd wedi'u hychwanegu at fy Natganiad o Ddiddordeb?**

Os am ddileu cae sydd wedi'i ychwanegu at eich Datganiad o Ddiddordeb, cliciwch 



Bydd hyn yn troi'r cae yn llwyd ac yn ei dynnu o'ch Datganiad o Ddiddordeb. Os ydych wedi gwneud camgymeriad, mae modd i chi ddadwneud hyn drwy glicio i ddadwneud y dileu, a bydd y cae sydd wedi'i ddileu yn ôl ar eich ffurflen eto.




Ar ôl dewis caeau i'w rhoi yn y cynllun, a/neu ychwanegu caeau eraill, cliciwch ar 'Nesaf' i symud ymlaen i'r adran Gyflwyno.

## ADRAN 4 – CYFLWYNO EICH DATGANIAD O DDIDDORDEB YN Y CYNLLUN ADFER COETIR

Y dudalen gyntaf yw'r dudalen Gwallau, Gwybodaeth a Chrynodeb, sy'n cynnwys yr holl fanylion a ddarparwyd gennych ar eich ffurflen.


Cynllun Adfer Coetir

Helpu

Cyflwyniad

Hysbysiad preifatrwydd

Manylion Hysybsiad Iechyd Planhigion Statudol a Thrwydded Torri Coed

Rhestr Caeau

Cyflwyno

Gwallau, Gwybodaeth a Chrynodeb

Datganiadau Ac Ymrwymiadau

Cyflwyno

Gwallau, Gwybodaeth a Chrynodeb

Crynodeb, gan gynnwys camgymeriadau a gwybodaeth
Nid oes Gwallau na Negeseuon Gwybodaeth.

Nid yw hyn yn cadarnhau bod eich cais yn gyflawn ac yn gywir. Bydd gofyn sicrhau'ch bod wedi hawlio ar y tir y bwriadwyd hawlio arno a bod y manylion yn eich cais yn gyflawn ac yn gywir.

**Crynodeb o'r Manylion**
**Pwysig: Darllenwch y Crynodeb. Sgroliwch i lawr os oes angen.**

Dyma grynodeb o'ch Datganiad o Ddiddordeb am Gynllun Adfer Coetir.

Manylion Adfer

| | |
|---|---|
| A oes gennych Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol? | Oes |
| Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol: | 99/00099/99M |
| A oes gennych drwydded cwympo sy'n cynnwys coed llarwydd? | Oes |
| Trwydded Cwympo Coed: | 9999999999999999999 |
| Cwympo ac ailstocio neu ailstocio yn unig? | Cwympo ac ailstocio |
| A oes angen cymorth ariannol arnoch i dorri llarwydd hyd at 25 oed? | Oes |

Data Caeau

| Cyf y Ddalen | Rhif y Cae | Maint y Cae (Ha) | Arwynebedd Coetir yr NFI (Ha) | Wedi'i ddewis ar gyfer Adfer | Cyfanswm Arwynebedd Ail-blannu (ha) | Deiliadaeth | Dyddiad Dechrau'r Denantiaeth | Dyddiad Ola'r Denantiaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 0.00 | Ie | 1.00 | O | | |

Cynllun Adfer Coetir


Nifer y Caeau a ddewiswyd 1
Arwynebedd i'w Greu 1.00

Bydd unrhyw broblemau sydd wedi dod i'r amlwg gyda'ch Datganiad o Ddiddordeb yn y Cynllun Adfer Coetir yn ymddangos yn y blwch 'Camgymeriadau a Gwybodaeth' ar frig y sgrin.   Gallwch ddychwelyd at dudalennau blaenorol ar eich ffurflen i wirio a chywiro problemau drwy wasgu'r botwm 'Yn ôl' neu ddewis y dudalen briodol ar ochr chwith y sgrin.  Bydd arwydd yn ymddangos wrth ochr bob tudalen sydd â phroblem:

| | |
|---|---|
|  | Mae'r groes goch yn ymddangos pan fo adran/tudalen ofynnol heb ei gweld eto, neu os oes angen cywiro camgymeriadau. **Ni fyddwch yn medru cyflwyno'ch Datganiad o Ddiddordeb os oes croes goch yn ymddangos.** Bydd yn rhaid i chi ddatrys y broblem gyntaf. |
|  | Mae'r eicon Gwybodaeth glas yn dangos bod neges wybodaeth wedi'i sbarduno. Mae'r negeseuon hyn yn eich rhybuddio am broblem bosibl, ond gallwch gyflwyno'ch Datganiad o Ddiddordeb hyd yn oed os oes eicon glas yn ymddangos. |

## Datganiadau ac Ymrwymiadau


**Gofalwch eich bod wedi darllen y datganiadau a'r ymrwymiadau'n fanwl a'ch bod yn eu deall, cyn cyflwyno'ch Datganiad o Ddiddordeb.**





Pan fyddwch wedi darllen y Datganiadau ac Ymrwymiadau, bydd angen i chi roi tic yn y blwch 'Rwyf wedi darllen y Datganiad a'r Ymrwymiadau uchod ac yn cytuno â nhw'. Pan fyddwch wedi gwneud hynny, dewiswch 'Nesaf' i symud i'r dudalen Gyflwyno.

## Tudalen Gyflwyno

Cliciwch i gyflwyno'ch Datganiad o Ddiddordeb.




Bydd y neges hon yn ymddangos:



## ADRAN 5 - BETH I'W WNEUD AR ÔL CYFLWYNO'R DATGANIAD YN LLWYDDIANNUS

Bydd crynodeb o'ch Datganiad o Ddiddordeb yn y Cynllun Adfer Coetir yn cael ei hychwanegu at dudalen 'Negeseuon' eich cyfrif RPW Ar-lein dan y teitl "Dogfennau wedi dod i law Taliadau Gwledig Cymru". Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio'r wybodaeth a gyflwynwyd yn drylwyr. Os oes unrhyw wybodaeth yn anghywir, anfonwch ateb i'r neges yn rhoi manylion ynghylch eich pryderon. Dylech wneud hyn cyn gynted ag sydd modd ar ôl dod o hyd i wybodaeth anghywir.

### Tystiolaeth Ddogfennol

Sicrhewch eich bod yn darparu'r holl dystiolaeth ddogfennol gyda'ch Datganiad o Ddiddordeb yn y Cynllun Adfer Coetir. Os oes modd i chi gyflwyno eich tystiolaeth ddogfennol ar-lein, dylech ddefnyddio'r dudalen 'Negeseuon' i wneud hyn gan sicrhau eich bod yn gosod "Tystiolaeth Ddogfennol Datganiad o Ddiddordeb yn y Cynllun Adfer Coetir" fel testun i'ch neges. Atodwch yr holl ddogfennau i'r un neges er mwyn medru rheoli'r cyfan dan un cyfeirnod.

Ceir canllawiau ynghylch defnyddio'r dudalen 'Negeseuon' ar llyw.cymru/taliadau-gwledig-cymru-ar-lein

- Dewiswch ddolen 'Canllaw RPW Ar-lein' o'r ddewislen ar yr ochr dde.
- Dewiswch naill ai 'Cwsmeriaid' neu 'Asiantwyr/Undebau Amaethyddol', yna dewiswch 'Negeseuon' o'r rhestr o gyfarwyddiadau cam wrth gam.

Os nad oes modd i chi gyflwyno'ch tystiolaeth ddogfennol ar-lein, sicrhewch eu bod yn cyrraedd nhîm Datganiad o Ddiddordeb y Cynllun Adfer Coetir erbyn y dyddiad cau.

### Tynnu'ch Datganiad o Ddiddordeb yn ôl

Os ydych am dynnu eich Datganiad o Ddiddordeb yn y Cynllun Adfer Coetir yn ôl wedi i chi ei gyflwyno ar-lein, dylech fynd at eich tudalen 'Negeseuon'. Dewiswch y neges a gyrhaeddodd wrth i chi gyflwyno'ch Datganiad o Ddiddordeb yn y Cynllun Adfer Coetir. Nodwch ar y neges hon eich bod am dynnu'r Datganiad o Ddiddordeb yn ôl (gan atodi unrhyw wybodaeth berthnasol), er mwyn i ni fedru rheoli'r cyfan dan un Cyfeirnod.

Ceir canllawiau ynghylch defnyddio'r dudalen 'Negeseuon' ar llyw.cymru/taliadau-gwledig-cymru-ar-lein

- Dewiswch ddolen 'Canllaw RPW Ar-lein'.
- Dewiswch naill ai 'Cwsmeriaid' neu 'Asiantwyr/Undebau Amaethyddol', yna dewiswch 'Negeseuon' o'r rhestr o gyfarwyddiadau cam wrth gam.

**Newidiadau ac Ychwanegiadau**

Ar ôl i chi gyflwyno'ch Datganiad o Ddiddordeb yn y Cynllun Adfer Coetir, mae'n bosibl y byddwch am wneud newidiadau neu ychwanegiadau. Dylech ddefnyddio'r dudalen 'Negeseuon' i wneud hyn. Dewiswch y neges a gyrhaeddodd wrth i chi gyflwyno'ch Datganiad o Ddiddordeb, yna atodwch fanylion eich newid a/neu ddogfennau ychwanegol (os yn berthnasol) i'r un neges hon, er mwyn rheoli'r cyfan dan yr un Cyfeirnod.

Ceir canllawiau ynghylch defnyddio'r dudalen 'Negeseuon' ar llyw.cymru/taliadau-gwledig-cymru-ar-lein

- Dewiswch ddolen 'Canllaw RPW Ar-lein'.

- Dewiswch naill ai 'Cwsmeriaid' neu 'Asiantwyr/Undebau Amaethyddol', yna dewiswch 'Negeseuon' o'r rhestr o gyfarwyddiadau cam wrth gam.